

Cyngor Sir Ddinbych
Gwella Ysgolion a Chynhwysiant

Cod Ymddygiad Lleol Hysbysiadau Cosb Benodedig Addysg

Medi 2016
Fersiwn 2

**Gwasanaeth Lles Addysg / Gwasanaeth Gwaith
Cymdeithasol Addysg**

**Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg ar gais.
This publication this available in English on request.**

1. Y Fframwaith Cyfreithiol

1.1. Mae'r gyfraith yn rhoi pŵer i Swyddogion dynodedig Cyngor Sir Ddinbych, Penaethiaid Ysgolion, gan gynnwys y dirprwyon a enwebwyd ganddynt, a'r Heddlu i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig i rieni plant sy'n absennol o'r ysgol heb awdurdod.

Amlinellir y rheolau sy'n llywodraethu gweithrediad y pwerau hyn a'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth roi Hysbysiad Cosb Benodedig yn:

- Neddf Addysg 1996;
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
- Rheoliadau Addysg (Rhybuddion Cosb)(Cymru) 2013; a
- Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg, yn bennaf "Canllawiau ar gyfer Contractau Rhianta yn ymwneud ag Addysg, Gorchmynion Rhianta a Hysbysiadau Cosb 2007 a Sicrhau Hawliau Plant i Addysg".

1.1.1. (CSDd) sy'n gyfrifol am ddatblygu protocol y bydd pob asiantaethau partner a enwyd mewn deddfwriaeth yn gweithio ar y cyd yn unol ag ef.

2. Rhesymeg

2.1. Mae Adran 7 Deddf Addysg 1996 yn nodi:

"Bydd rhiant pob plentyn oedran ysgol gorfodol yn achosi iddo dderbyn addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i'w oedran, dawn ,gallu ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo, naill ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall."

2.1.1. Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon gan ddisgyblion yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen yn ofyniad cyfreithiol ac mae'n hanfodol er mwyn i blant wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.

2.1.2. Mae tystiolaeth yn dangos fod plant â phresenoldeb gwael yn annhebygol o lwyddo'n academaidd ac maent yn fwy tebygol o fod yn unigolyn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae pobl ifanc sydd yn NEET yn fwy tebygol o fod â hanes o beidio â mynychu ac absenoldeb parhaus ym mlynnyddoedd 10 ac 11.

2.1.3. Mae adran 444 Deddf Addysg 1996, yn ei gwneud yn drosedd i riant fethu â sicrhau presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol lle maent wedi'u cofrestru, a lle nad yw'r ysgol wedi awdurdodi'r absenoldebau.

2.1.4. Mae'r diffiniad o "riant" yn cynnwys pob rhiant naturiol, boed yn briod ai peidio, ac yn cynnwys unrhyw berson sydd, er nad yw'n rhiant naturiol, â chyfrifoldeb rhiant a/neu'n gofalu am blentyn neu berson ifanc.

2.1.5. Mae ymyrraeth wedi'i dargedu yn hollbwysig wrth ddatrys materion yn ymwneud â phresenoldeb gwael yn yr ysgol, fodd bynnag, lle nad yw hyn yn cael yr effaith a ddymunir, mae nifer o gosbau ar gael i Awdurdodau Lleol i geisio sicrhau gwelliant.

2.2. Hysbysiadau Cosb Benodedig yw un o'r cosbau sydd ar gael ar gyfer y drosedd hon ac maent yn cynnig dull o ymyrraeth addas ac effeithiol er mwyn gwella lefelau absenoldeb heb eu hawdurdodi, cyn iddynt ddod yn absenoldebau parhaus ac ymwreiddio, gan leihau'r angen am erlyniadau hir a chostus.

2.3 Bydd Hysbysiadau Cosb Benodedig a chosbau eraill ond yn cael eu defnyddio lle nad yw'r rhieni'n cydweithredu o gwbl â'r broses hon neu yr ystyrir bod eu cydweithrediad yn annigonol i ddatrys y broblem. Byddant yn cael eu defnyddio fel modd o gefnogi rhieni i

gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol a dim ond lle mae'n rhesymol disgwyl y bydd eu defnyddio yn sicrhau gwell presenoldeb yn yr ysgol.

3. Polisi a Chyhoeddusrwydd.

3.1. Bydd Polisiâu Presenoldeb Ysgolion yn cynnwys gwybodaeth am roi Hysbysiadau Cosb Benodedig a thynnir sylw rhieni at hyn.

4. Monitro ac adolygu

Bydd (CSDd) yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd Hysbysiadau Cosb Benodedig bob dwy flynedd ac yn diwygio ei strategaeth orfodi gyffredinol fel y bo'n briodol. Bydd adroddiadau blynyddol ar gael i'r Pennaeth Gwasanaeth, SSEMT, Pwyllgor Archwilio a Llywodraeth Cymru.

Protocolau a gweithdrefnau (CSDd) mewn perthynas â Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Rhoi Hysbysiad Cosb

- Gellir ond rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig yn dilyn achosion o absenoldeb heb awdurdod;
- Cyfyngir y defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig i un hysbysiad fesul rhiant disgybl bob blwyddyn academaidd; nodwch, mae'n rhaid i absenoldebau heb awdurdod fod o fewn tymor i roi Rhybudd Cosb Benodedig.
- Mewn achosion lle mae presenoldeb mwy nag un disgybl o'r un teulu yn wael, gellir rhoi hysbysiadau ar gyfer mwy nag un plentyn;
- Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall rhiant dderbyn rhybudd ffurfiol o Hysbysiad Cosb Benodedig.

Gellir ystyried fod Hysbysiadau Cosb yn briodol pan:

- Gollwyd o leiaf 20 sesiwn (10 diwrnod ysgol) oherwydd absenoldeb heb ei awdurdodi yn ystod y tymor cyfredol. Nid oes rhaid i'r rhain fod yn olynol;
- Absenoldebau heb awdurdod am o leiaf 20 sesiwn (10 diwrnod ysgol) o ganlyniad i wyliau yn ystod y tymor neu oedi wrth ddychwelyd o wyliau estynedig; neu
- Gyrraedd yr ysgol yn hwyr yn barhaus, h.y. ar ôl cau'r gofrestr, yn y tymor cyfredol. Mae "Parhaus" yn golygu cyrraedd yn hwyr i o leiaf 20 sesiwn;
- Triwantiaeth;

Bydd yr Awdurdod Lleol (ALI) yn cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gais yr ysgol mewn ymateb i absenoldeb heb awdurdod sy'n gysylltiedig â gwyliau dim ond pan fydd yr ysgol wedi darparu'r gwaith papur a'r dystiolaeth angenrheidiol. Dylai'r gwaith papur gynnwys:

- Copi o newyddlen yr ysgol neu llythyr a anfonwyd i'r holl rieni yn ystod y flwyddyn Academaidd gyfredol sy'n nodi'n glir y gall rhieni dderbyn Hysbysiad Cosb Benodedig neu wyliau awdurdodedig yn ystod tymor yr ysgol. (Ni fydd yr ALI angen copi caled o'r newyddlen /llythyr bob tro y bydd yr ysgol yn cyflwyno cais am Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer gwyliau heb awdurdod, dim ond y tro cyntaf ym mhob blwyddyn academaidd);
- Copi o'r Ffurflen Gais am Wyliau a gyflwynwyd gan riant, a chopi o'r ymateb a anfonwyd at y rhiant gan yr ysgol. Os bydd cais gwyliau yn cael ei wrthod dylai ymateb yr ysgol nodi'r rheswm pam fod y gwyliau yn un heb awdurdod a dylent hysbysu'r rhiant eto y gallant dderbyn Hysbysiad Cosb Benodedig os byddant yn tynnu eu plentyn o'r ysgol;
- Copi o'r llythyr a anfonwyd gan yr ysgol i'r rhiant yn eu cynghori bod yr ysgol wedi atgyfeirio'r mater i'r ALI ac y bydd Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyflwyno;
- Tystysgrif Presenoldeb neu Gofrestru'r disgybl perthnasol;
- Tystysgrif wedi'i llofnodi gan y Pennaeth neu eu dirprwy enwebedig yn cadarnhau bod yr absenoldeb yn ystod y cyfnod heb ei awdurdodi;

Ni fydd Hysbysiad Cosb yn cael ei gyhoeddi mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal ("PDG") sy'n destun ymyrraeth barhaus gan ALI.

Ystyriaethau ac Aseidiadau o ran a ddylid rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig.

Mae'n rhaid i Benaethiaid, a dirprwyon penodedig seilio unrhyw benderfyniad i wneud cais am HCB ar yr hyn sy'n gyfystyr â "**phresenoldeb ysgol rheolaidd**" sy'n gwestiwn o ffeithiau a thystiolaeth. Mae'n rhaid edrych ar gyfnod o absenoldeb yng nghyd-destun cofnod presenoldeb ehangach disgybl.

Mae dyfarniad yr Uchel Lys ar 13eg Mai 2016 yn achos awdurdod lleol Ynys Wyth, a Mr Platt yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth ddefnyddio disgrisiwn.

Mae hyn eisoes yn bodoli gyda'r 10 diwrnod o wyliau yn ystod y tymor (amgylchiadau eithriadol) yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael yn yr ysgol yn ymwneud â chofnod presenoldeb ehangach y disgybl. Mae hyn yn cynnwys y ffactorau isod:

- Lefel yr absenoldeb;
- Yr adeg o'r flwyddyn a'i bwysigrwydd yn y flwyddyn ysgol;
- Unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r teulu (a restrir ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor);
- Unrhyw ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig;
- Hanes o faterion presenoldeb a'r camau a gymerwyd;
- Amddiffyniadau a allai fod ar gael;
- Canllawiau Llywodraeth Cymru (LIC):
- Y tebygolrwydd y bydd yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn arf effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth;
- Lefel ymgysylltu/ cydweithredu'r rhiant;
- Unrhyw effaith andwyol sylweddol y byddai dirwy yn ei gael ar les y teulu.

Gweithdrefn ar gyfer Rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig

Y swyddogion penodol yn y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg fydd yr unig rai a ganiateir i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig yn Sir Ddinbych, a fydd yn sicrhau darpariaeth gyson a theg ac yn caniatáu i ysgolion gynnal perthynas dda gyda'r rhieni a sicrhau eu bod yn atgyfnerthu unrhyw gosbau gorfodi eraill.

Bydd Hysbysiadau Cosb Benodedig ond yn cael eu rhoi drwy'r post ac ni fyddant fyth yn cael eu rhoi fel gweithred ar unwaith. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i sicrhau bod yr holl ofynion tystiolaeth yn eu lle a chyfyngu ar y risgiau iechyd a diogelwch i unigolion.

Ceisiadau i roi Hysbysiad Cosb Benodedig

Lle mae ysgolion, yr Heddlu neu awdurdodau lleol cyfagos yn gwneud cais i roi Hysbysiad Cosb Benodedig, bydd y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg yn ymchwilio a gweithredu ar eu cais, ar yr amod bod:

- Amgylchiadau'r achos yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Cod Ymddygiad hwn;
- Y disgybl wedi ei gofrestru yn un o ysgolion (CSDd);

- Darperir yr holl dystiolaeth angenrheidiol i'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg er mwyn sefydlu a gyflawnwyd trosedd o dan Adran 444(1) neu 444(1A) Deddf Addysg 1996 neu Adran 103 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006;
- Ni fyddai rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig yn gwrthdaro â strategaeth ymyrraeth arall sydd eisoes ar waith neu gosb gorfodi arall sydd eisoes yn cael ei phrosesu ac mae disgwyliad rhesymol y byddai defnyddio Hysbysiad Cosb Benodedig yn gwella presenoldeb y plentyn yn yr ysgol neu'n atal gwrthdaro pellach â Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006;
- Bydd y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg yn ymateb i bob cais o fewn 10 diwrnod ysgol o'u derbyn, a lle'i fod yn fodlon y bodlonir pob un o'r meini prawf perthnasol, bydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol i'r rhiant o'r posibilrwydd o roi Hysbysiad Cosb Benodedig;

Hysbysiaidau Cosb Benodedig ar gyfer gwyliau heb awdurdod.

Lle y gofynnir am Hysbysiad Cosb Benodedig gan yr ysgol mewn ymateb i absenoldeb heb awdurdod ar gyfer gwyliau sy'n 10 diwrnod neu fwy, neu mewn perthynas â throsedd dan adran 103 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 gall hysbysiad cosb benodedig fod yn berthnasol, os nad oes amgylchiadau eithriadol.

Monitro ac Adolygu

Cofnodir pob Hysbysiad Cosb Benodedig ar gronfa ddata a fydd yn cael ei chynnal gan y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg er mwyn sicrhau nad oes unrhyw Hysbysiaidau Cosb Benodedig dyblyg yn cael eu rhoi ac i werthuso effeithiolrwydd y broses yn Sir Ddinbych.

Disgyblion sydd wedi'u Gwahardd

Nid yw sail pwerau hysbysiad cosb benodedig yn berthnasol i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd.

Daeth Adran 108 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 i rym ym mis Hydref 2010 ac mae'n diwygio adran 16 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 i ymestyn pwerau'r heddlu i symud plant sydd wedi'u gwahardd i eiddo dynodedig os canfyddir plentyn neu unigolyn sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol mewn man cyhoeddus o fewn ardal benodol yn ystod cyfnod penodol ac yn ystod oriau'r ysgol.

Gweithdrefn ar gyfer Dileu Hysbysiad Cosb Benodedig

Ar ôl ei roi, gellir ond dileu Hysbysiad Cosb Benodedig os yw'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg yn fodlon bod:

- Yr Hysbysiad Cosb Benodedig wedi'i roi i'r person anghywir;
- Nad oedd y defnydd o'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad hwn;
- Yr Hysbysiad Cosb Benodedig wedi'i anfon i'r cyfeiriad anghywir;
- Y dystiolaeth yn dangos na ddylid fod wedi rhoi'r Hysbysiad Cosb Benodedig, e.e. dystiolaeth feddygol; neu

- Amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau ei ddileu.

Hawl i Apelio

Nid oes unrhyw hawl statudol i apelio, ond pan fo rhiant yn herio Hysbysiad Cosb Benodedig a roddwyd, gallant gyflwyno unrhyw gwynion i'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg a/neu ddewis wynebu achos yn Llys yr Ynadon dan Adran 444 Deddf Addysg 1996 lle bydd yr holl faterion sy'n gysylltiedig â'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael eu trafod yn llawn.

Talu Hysbysiad Cosb Benodedig

Bydd y trefniadau ar gyfer talu wedi eu nodi ar yr Hysbysiad Cosb.

Mae talu Hysbysiad Cosb Benodedig yn cyflawni ymrwymiad y rhiant ar gyfer y cyfnod dan sylw ac ni ellir eu herlyn yn ddiweddarach dan rymoedd gorfodi eraill am y cyfnod dan sylw yn yr Hysbysiad Cosb Benodedig.

Os bydd yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei dalu o fewn 28 diwrnod, y gosb sy'n daladwy yw £60 neu £120 os yw'n cael ei dalu o fewn 42 diwrnod. Ni dderbynnir taliadau gan rieni wedi i 42 diwrnod fynd heibio ac ni ellir chwaith eu talu mewn rhandaliadau.

Bydd (CSDd) yn cadw unrhyw refeniw o Hysbysiadau Cosb Benodedig, ei gadw ar wahân a'i ddefnyddio fel arfer i dalu costau gorfodi, h.y. costau sy'n gysylltiedig â rhoi, casglu neu erlyn, os na chaiff Hysbysiadau Cosb Benodedig eu talu.

Peidio â Thalu Hysbysiad Cosb Benodedig

Gellir erlyn am beidio â thalu Hysbysiad Cosb Benodedig am y cyfnod dan sylw yn yr Hysbysiad Cosb Benodedig dan Adran 444 Deddf Addysg 1996.

Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Wrth roi Hysbysiadau Cosb Benodedig, rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau cysylltiedig eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd teg a chyson a bod sylw priodol wedi'i roi i amgylchiadau'r plentyn/plant a'r teuluoedd dan sylw. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:-

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae Polisi Cydraddoldeb y Cyngor yn ymdrin â'r ystod lawn o faterion a allai fod angen eu hystyried, gan ddibynnu ar yr achos unigol.

Atodiadau:

Atodiad 1 – Cais am Lythyr Rhybudd Hysbysiad Cosb Benodedig

Atodiad 2 – Cais am Hysbysiad Cosb Benodedig

Atodiad 3 -Deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â Hysbysiadau Cosb Benodedig

Atodiad 1

**CAIS AM LYTHYR RHYBUDD HYSBYSIAD COSB BENODEDIG
(Yn dilyn 5 diwrnod (10 sesiwn o absenoldeb heb awdurdod)
ABSENOLDEB HEB AWDURDOD - Adran 444, Deddf Addysg, 1996**

Gofynnaf i'r Awdurdod Lleol ystyried rhoi llythyr rhybudd o Hysbysiad Cosb Benodedig i riant (rhieni)/ gofalwr (gofalwyr)* y disgybl a ganlyn:

Manylion y Disgybl

Ysgol Gofrestredig

Enw'r Disgybl..... Dyddiad Geni.....
Blwyddyn.....

Cyfeiriad:

.....

***Darparwch fanylion y riant/ gofalwr y cyflwynir yr Hysbysiad Cosb Benodedig iddynt yn unig.**

Rhiant 1*

Enw Llawn

Dyddiad Geni.....

Cyfeiriad:

Rhiant 2*

Enw Llawn

Dyddiad Geni

Cyfeiriad:

Mae'r term "rhiant", mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw un nad yw'n rhiant i'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu sy'n gofalu am y plentyn o ddydd i ddydd.

Wrth wneud y cais hwn, rwy'n cadarnhau na fyddai camau o'r fath yn gwrthdaro â strategaethau ymyrraeth eraill sydd eisoes mewn grym neu fesurau gorfodaeth eraill sydd eisoes yn cael eu prosesu. Gallaf hefyd gadarnhau bod corff llywodraethu'r ysgol hon wedi adolygu ei bolisi presenoldeb a chytunwyd y bydd yr ysgol hon yn gofyn i'r Awdurdod Lleol roi Hysbysiaid Cosb mewn achosion priodol.

Sut gysylltwyd â'r rhiant ynghylch yr absenoldebau heb eu hawdurdodi?

Cyfarfod ysgol Llythyr Galwad ffôn

A yw'r teulu'n hysbys i Wasanaethau eraill, ee: Gwasanaethau plant, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc?

Ydyn / Nac ydyn

Os ydynt, rhowch fanylion llawn:

A oes unrhyw amgylchiadau nodedig i'w hystyried, ee: iechyd meddwl, profedigaeth, deinameg teuluol/trais domestig? Oes / Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion llawn:

Llofnod Swydd Dyddiad

Amgawch dystysgrif cofrestru wedi'i diweddaru a'i llofnodi gan y Pennaeth neu'r Dirprwy yn absenoldeb y pennaeth.

Atodiad 2

CAIS AM HYSBYSIAD COSB BENODEDIG. ABSENOLDEB HEB AWDURDOD - Adran 444, Deddf Addysg, 1996

Bydd yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y ffurflen yn cael ei defnyddio mewn achos cyfreithiol o dan y Ddeddf uchod mewn perthynas â diffyg presenoldeb os bydd Rhybudd Cosb Addysg a roddwyd yn dal heb ei dalu. Gofynnaf i'r Awdurdod Lleol ystyried rhoi Hysbysiad Cosb i riant / rhieni* y disgybl a ganlyn:

Manylion y Disgybl

Ysgol Gofrestredig

Enw'r Disgybl.....Dyddiad Geni.....
Blwyddyn.....

Cyfeiriad:

.....

***Darparwch fanylion y riant/ gofaluwr y cyflwynir yr Hysbysiad Cosb Benodedig iddynt yn unig.**

Rhiant 1*

Enw Llawn

Dyddiad Geni.....

Cyfeiriad:

Rhiant 2*

Enw Llawn

Dyddiad Geni

Cyfeiriad:

Mae'r term "rhiant", mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw un nad yw'n rhiant i'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu sy'n gofalu am y plentyn o ddydd i ddydd.

Wrth wneud y cais hwn, rwy'n cadarnhau na fyddai camau o'r fath yn gwrthdaro â strategaethau ymyrraeth eraill sydd eisoes mewn grym neu fesurau gorfodaeth eraill sydd eisoes yn cael eu prosesu. Gallaf hefyd gadarnhau bod corff llywodraethu'r ysgol hon wedi adolygu ei bolisi presenoldeb a chytunwyd y bydd yr ysgol hon yn gofyn i'r Awdurdod Lleol roi Hysbysiaidau Cosb mewn achosion priodol.

Sut gysylltwyd â'r rhiant ynghylch yr absenoldebau heb eu hawdurdodi?

Cyfarfod ysgol Llythyr Galwad ffôn

A yw'r teulu'n hysbys i Wasanaethau eraill, ee: Gwasanaethau plant, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc?

Ydyn / Nac ydyn

Os ydynt, rhowch fanylion llawn:

A oes unrhyw amgylchiadau nodedig i'w hystyried, ee: iechyd meddwl, profedigaeth, deinameg teuluol/trais domestig? Oes / Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion llawn:

Llofnod Swydd Dyddiad

Amgawch dystysgrif cofrestru wedi'i diweddarau a'i llofnodi gan y Pennaeth neu'r Dirprwy yn absenoldeb y pennaeth.

Atodiad 3

Mae deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cynnwys:

Deddf Plant 1989

Mae'r diffiniad o 'riant' yn golygu'r holl rieni naturiol, boed yn briod ai peidio; ac yn cynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant, er nad ydynt yn rhiant naturiol ac / neu'n gofalu am blentyn neu berson ifanc.

Deddf Addysg 1996;

Adran 7	Dyletswydd rhieni i sicrhau addysg i blant oedran ysgol gorfodol;
Adran 8	Diffiniad o oedran ysgol gorfodol;
Adran 444	Trosedd: Methiant i sicrhau presenoldeb rheolaidd disgybl a gofrestrwyd yn yr ysgol;
Adran 444A	Hysbysiad cosb mewn perthynas â methiant i sicrhau presenoldeb rheolaidd disgybl a gofrestrwyd yn yr ysgol;
Adran 444B	Hysbysiadau cosb: atodol;
Adran 444ZA	Gweithredu adran 444 i ddarpariaeth addysgol amgen
Adran 576	Ystyr "rhiant"

Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

Adran 103	Dyletswydd rhiant mewn perthynas â disgybl a waharddwyd.
-----------	--